INCLUSIVE
Digital Safety

TAFLEN YMCHWIL A DEALLTWRIAETH

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'n bosib y bydd plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn wynebu heriau ychwanegol ar-lein. Isod rydyn ni'n rhannu ychydig o waith ymchwil a chipolygon ar sut y gallai hyn effeithio ar eu lles a'u diogelwch.

### Yn y gwaith ymchwil hwn mae plant a phobl ifanc yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae gen i anawsterau dysgu"
- "Mae gen i fathau eraill o Anghenion Dysgu Ychwanegol"
- "Mae gen i anabledd corfforol"
- "Mae gen i anawsterau golwg"
- "Mae gen i salwch tymor hir"

## Risgiau sydd wedi'u rhagweld

Gellir defnyddio gwendidau all-lein plant a phobl ifanc i ragweld eu gwendidau ar-lein..

Mae pobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn agored iawn i senarios ar-lein risg uchel - twyll seiber, ymddygiad, cynnwys a chysylltu.

Mae anabledd corfforol yn ddangosydd o risgiau ymddygiad.

Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ddangosydd o risgiau cysylltu ar-lein.

Mae dioddef cyswllt ar-lein yna'n rhagweld rhagor o niwed ar-lein:

- Gweld cynnwys niweidiol
- Dioddef risgiau ymddygiad
- Mwy o ddefnydd o rwydweithiau
- Dioddef ymosodiad seiber

## Cipolygon allweddol:

*Pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol:*

Mae mwy nag un o bob pump o'r rheini sydd ag anawsterau dysgu wedi gweld sylwadau neu negeseuon yn cynnwys trais, casineb neu gredoau hiliol.[1]

Mae 26% o bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n 'gaeth' i'w ffonau ac mae 26% yn aml yn teimlo'n flin neu'n bryderus os nad oes ganddyn nhw eu ffonau[1]

Mae 27% yn ymweld â gwefannau sy'n hyrwyddo hunan-niweidio o gymharu ag 17% o'u cyfoedion sydd ddim yn agored i niwed

Mae 25% yn ymweld â gwefannau sydd o blaid anorecsia o gymharu ag 17% o'u cyfoedion sydd ddim yn agored i niwed

Roedd pobl ifanc ag anawsterau dysgu traean yn fwy tebygol o dreulio mwy na 5 awr ar-lein bob dydd

Traean yn fwy tebygol bod eu cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn cael ei hacio

Traean yn fwy tebygol o ddweud na chawson nhw eu dysgu sut i gadw'n ddiogel ar-lein[2]

Yn llawer mwy tebygol o ddweud nad ydyn nhw'n dilyn y cyngor a gawson nhw ynglŷn â chadw'n ddiogel a'r lein.

*1. Cybersurvey 2019, gan Youthworks mewn partneriaeth ag Internet Matters. 2. Vulnerable Children in a Digital World*

*Pobl ifanc ag anableddau corfforol:*[3]

Roedd dros hanner yn dweud eu bod nhw'n treulio dros 5 awr ar-lein bob dydd

Roedd cyfrif cyfryngau cymdeithasol dros draean ohonynt wedi cael ei hacio

Eu rhieni yn lleiaf tebygol o gyfyngu ar amser o flaen sgrin

Dywedodd 54% bod eu rhieni wedi'u dysgu sut i gadw'n ddiogel ar-lein

Dywedodd 32% nad oedd y cyngor neu'r addysg a gawson nhw ynglŷn â chadw'n ddiogel ar-lein yn ddigon da neu ei fod yn ddiwerth

Yn fwy tebygol o ymweld â gwefannau â chynnwys aeddfed na'u cyfoedion

3. Vulnerable Children in a Digital World

# Egluro Risgiau

*Mae risgiau **ymddygiad** yn gysylltiedig â'r canlynol*

- Defnyddio ystafelloedd sgwrsio
- Edrych ar dudalennau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer oedolion
- Ymweld â gwefannau hapchwarae
- llwytho cerddoriaeth i lawr heb dalu

*Mae risgiau **cynnwys** yn ymwneud ag ymweld â gwefannau sy'n*

- Annog pobl ifanc i fod yn denau iawn
- Siarad am hunan-niweidio neu hunanladdiad
- Hyrwyddo casineb neu syniadau hiliol
- Rhoi cyngor peryglus
- Gwerthu nwyddau anghyfreithlon
- Dangos lluniau neu fideos noeth na wnaethoch chi chwilio amdanynt
- Dangos lluniau neu fideos treisgar iawn nad ydy pobl ifanc eisiau eu gweld

*Mae dioddefwyr **twyll seiber** wedi profi camddefnydd o'u data personol ac maen nhw'n dueddol o gytuno â datganiadau fel y canlynol:*

- Mae fy nghyfrif cyfryngau cymdeithasol wedi cael ei hacio
- Mae fy manylion personol wedi cael eu dwyn neu eu hacio
- Mae manylion fy nghherdyn credyd wedi cael eu dwyn a'u defnyddio
- Rydw i wedi cael fy nhwyllo i dalu am rywbeth nad oeddwn i eisiau ei brynu
- Rydw i wedi cael fy nhwyllo i brynu nwyddau ffug

***Risgiau cysylltu** yw perthnasoedd ar-lein sydd fel arfer â symbyliad rhywiol, gan gynnwys y canlynol:*

- Cael eich cymell / blacmelio i wneud hynny
- Cael eich twyllo i wneud hyn
- Bod mewn perthynas a chael eich cymell i rannu lluniau noeth neu fod eisiau gwneud hynny
- Rhannu oherwydd bygythiadau
- Ei wneud er hwyl

***Ymosodiadau seiber:** nid yw ymosodiadau ar-lein yn wastad yn cael eu hystyried yn fwlio. Mae'n gallu cynnwys sylwadau, sarhad neu fygythiadau oherwydd edrychiad, hil, crefydd, rhywioldeb, rhywedd neu anabledd. Mae hefyd yn gallu cynnwys bygythiadau i niweidio unigolyn neu eu teulu.*

**Troedyn:** www.internetmatters.org/inclusive-digital-safety

Data by